Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
# Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
# Dydd Mawrth 27ain Ebrill 2021, 17:30
# Ar-lein (Zoom)

## Agenda

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1. | Croeso | |
| Gorffennol | 2. | Cofnodion o CCB 2019 | (P2) |
| | 3. | Ymlyniadau: Cadarnhau Canlyniadau'r Refferendwm | (P7) |
| Dyfodol | 4. | Eitemau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr | |
| | | i) Diweddariad ar Adolygiad yr Iaith Gymraeg | (P8) |
| | 5. | Cynigion i'w trafod | |
| | | A) Polisïau yn darfod | (P10) |
| | | B) Cynigion a gyflwynwyd | |
| | | i) Ymrwymiad i Wella Diogelwch Myfyrwyr | (P11) |
| | 6. | Hysbysiad CCB Rhan 2<br>*Dydd Iau 29ain Ebrill 2021, 17:30 drwy Facebook Byw Cardiff Students* | (P12) |
| | 7. | Unrhyw Fusnes Arall | |

# EITEM DAU

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2019
## Cofnodion
## Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
## Dydd Iau 21ain Tachwedd 2019, 18:00
## Y Neuadd Fawr

Sylwer: Ni recordiwyd y cyfarfod hwn a ni chadwyd gofnod o'r drafodaeth byw y CCB ar ddydd Iau 21ain Tachwedd 2019. O ganlyniad, ysgrifennwyd y cofnodion hyn i ddarparu cofnod cywir o ganlyniad pleidleisiau a chyflwyniad gwybodaeth ond nid ydynt yn cynnwys manylion y trafodaethau a gynhaliwyd.

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br><br>Cadeirydd Senedd y Myfyrwyr a'r CCB yn croesawu pawb a oedd yno |
| 2. | **Cofnodion 18/19**<br><br>Cafodd Cofnodion CCB 2018 eu cymeradwyo: |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol 18/19**<br><br>Cyflwynodd Jackie Yip, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018<br>Adroddiadau Blynyddol ar gael yma.<br><br>Nid oedd unrhyw gwestiynau. |
| 4. | **Adroddiad Ariannol 18/19**<br><br>Cyflwynodd Daniel Palmer, Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr, Adroddiad Ariannol 18/19<br>Datganiadau Ariannol ar gael yma.<br><br>Nid oedd unrhyw gwestiynau |
| 5. | **Ymlyniadau**<br><br>NUS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol: £49,737<br>BUCS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain: £17,077<br><br>**Ymlyniadau'n Pasio** |
| 6. | **Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr**<br><br>Codwyd cwestiynau agored gan y rhai a oedd yn bresennol yn y CCB. Atebwyd y cwestiynau gan aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd y pynciau yn cynnwys:<br>• Grant Bloc yr Undeb |

| | |
|---|---|
| | • Sut mae'r Undeb yn ail-fuddsoddi unrhyw elw a wneir?<br>• Cynlluniau i gynyddu lleoliad y Neuadd Fawr ar gyfer Yolo a Juice<br>• Amgylchiadau Esgusodol<br>• Addysg Wleidyddol<br>• Cynnwys yr opsiwn i gael gwared ar yr Is-lywydd Ôl-raddedig yn yr Adolygiad o Rôl Swyddogion<br>• Gweithredu streic a sut y byddai'r Undeb yn gweithio i ddigolledu myfyrwyr<br>• Sut gall corff y myfyrwyr gefnogi darlithiwr sy'n streicio? |
| 7. | **Eitemau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr** |
| i. | **Adolygiad Gweinyddol o Femorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu**<br><br>Cyflwynodd Jackie Yip yr adolygiad gweinyddol<br><br>**Cymeradwywyd Adolygiad Gweinyddol o Femorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu** |
| ii. | **Adolygiad Swyddogion Sabothol**<br><br>Canlyniadau yr adolygiad swyddog oedd:<br><br>• Opsiwn A: Derbyniodd disodli rôl yr Is-Lywydd Ôl-raddedig \| Removing VP Postgraduate 3 pleidlais<br>• Opsiwn B: Derbyniodd Uno rôl yr IL Addysg a'r IL Lles ac Ymgyrchoedd \| Merging VP Education and VP Welfare & Campaign 38 pleidlais<br>• Opsiwn C: Derbyniodd Aros yr un fath gydag Adolygiad \| Stay the same with a Review **335 pleidlais**<br><br>• Derbyniwyd cyfanswm o 58 Papur Pleidleisio na ddatganodd flaenoriaeth, roedd rhain yn cynnwys:<br>Roedd y papur heb farc arno o gwbl: 11<br>Roedd y papur wedi ei ddinistrio: 44<br>Nid oedd penderfyniad y pleidleisiwr yn glir: 3<br><br>**Pasiodd Opsiwn C y trothwy gyda 335 yn y rownd gyntaf ac o'r herwydd fe'i deddfwyd.** |
| 8. | **Cynigion i'w trafod** |
| A) | **Polisïau yn darfod**<br><br>Cyflwynwyd polisïau er gwybodaeth, ni chyflwynwyd unrhyw gynigion i ail-gadarnhau polisïau, ac felly terfynwyd y polisïau isod.<br><br>Swyddog Ymgyrch Iechyd Meddwl<br>Herio nid Sensro<br>Bod yn Undeb Dim Goddefgarwch<br>Misglwyf mewn Tlodi |
| B) | **Cynigion a gyflwynwyd** |

| | |
|---|---|
| i. | **Cyflogwr Cyflog Byw**<br><br>Cynigydd: Leo Holmes<br>Eiliwyd gan: Elinor Cheason.<br><br>Penderfyna'r CCB:<br>1. Fod Undeb y Myfyrwyr Caerdydd yn gwneud cais i'r Sefydliad Cyflog Byw am achrediad Cyflog Byw cyn gynted a gaiff y camau angenrheidiol eu cymryd.<br>2. Bod holl staff presennol a newydd a gaiff eu cyflogi gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn derbyn Cyflog Byw o leiaf £9.30 yr awr o fewn y tair blynedd academaidd nesaf i gyfateb a'r Ymgyrch Cyflog Byw.<br>3. I sicrhau nad fydd unrhyw doriadau i wasanaethau Iechyd Meddwl o ganlyniad i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol.<br>4. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cynllunio yn syth, i gyflogi yr holl gontractwyr ar y safle gyda'r Cyflog Byw o fewn y tair blynedd academaidd nesaf.☐<br><br>**Cynnig yn Pasio** |
| ii. | **Ymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghaerdydd.**<br><br>Cynigydd: Jackie Yip<br>Eiliwyd gan: Cindy Ikie<br><br>Penderfyna'r CCB:<br>1. Dylai'r Brifysgol gydnabod yn gyhoeddus eu dyletswydd i weithredu ar y canfyddiadau hyn a bod yn ymroddedig i ganfod datrysiadau.<br>2. I alw ar y Brifysgol i ryddhau datganiad cyhoeddus i'r adroddiad ECHR, yn amlinellu pa ymateb sy'n cael ei wneud ac ymrwymiad i amserlen i weithredu'r awgrymiadau.<br>3. Undeb y Myfyrwyr i weithio gyda'r Brifysgol i ddarganfod atebion a rhoi newidiadau mewn grym, gan sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed wrth ddatblygu'r camau nesaf.<br>4. Undeb y Myfyrwyr i weithio gydag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i lobio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) i sicrhau'r argymhelliad o'r adroddiad hwn yn cael ei weithredu a disgwyliadau clir yn cael eu rhoi ar Brifysgolion gan y corff cyllido.<br><br>**Cynnig yn Pasio** |
| iii. | **Streic UCU**<br><br>Cynigydd: Hebe Fletcher<br>Eiliwyd gan: Joe Healy<br><br>Penderfyna'r CCB:<br>1. I fandadu swyddogion etholedig i sefyll mewn undod gyda UCU a chyhoeddi datganiad cyhoeddus o gefnogaeth dros weithredu 2018/19, cyn 25ain Tachwedd.<br>2. I fandadu'r swyddogion etholedig i weithio gydag UCU ac i annog y Brifysgol i gwrdd a gofynion yr Undeb yn ymwneud â'r 'Four Fights' a phensiynau<br>3. I fandadu y swyddogion etholedig i roi llwyfan cyfathrebu i UCU gyda myfyrwyr ar-lein ac oddi ar y we i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r streic a gofynion UCU |

| | |
|---|---|
| | 4. Dylai Undeb y Myfyrwyr weithio gyda UCU i hwyluso a hyrwyddo sesiynau 'Teach-Out' i fyfyrwyr yn ystod cyfnod y streic<br>5. Dylai Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol i gael ad-daliad ffi am unrhyw oriau cyswllt a gaiff eu colli.<br>6. Bydd Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig yn annog myfyrwyr ÔRY sy'n addysgu, sydd eisiau cefnogi'r streic, i ymuno â UCU ac i wneud cais i'r gronfa Streic UCU - cronfa sy'n rhoi cymhorthdal am incwm a gollwyd i'r rheiny sy'n streicio.<br>7. Bydd Is-lywydd Ôl-raddedig yn annog myfyrwyr sy'n cefnogi'r streic i gefnogi ac ymgysylltu gyda staff mewn ralïau ac ar y llinell biced<br><br>**Cynnig yn Pasio** |
| iv. | **Polisi Amgylcheddol Radical**<br><br>Cynigydd: Matt Tomlin<br>Eiliwyd gan: Jordan Leeming<br><br>Cyflwynodd JW ddiwygiad i'r cynnig i ddisodli Penderfyniadau 5,6 a 7 y cynnig.<br><br>**Diwygiad yn pasio**<br><br>Penderfyna'r CCB:<br>1. Mae'n rhaid i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd greu a dechrau lledaenu ymgyrch 'Dweud y Gwir' ynglŷn â'r argyfyngau hinsawdd a ecolegol ar y campws erbyn diwedd y tymor academaidd nesaf. Mae angen hyn gael ei weithredu gan o leiaf IL Lles, IL Addysg a Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, a hynny ar y cyd gyda grwpiau ymgyrchu ac amgylcheddol sydd â diddordeb megis Extinction Rebellion Myfyrwyr Caerdydd.<br>2. Y mae'n rhaid i Undeb y Myfyrwyr, drwy'r swyddogion etholedig a grwpiau cydweithredol hynny, lobio'r Brifysgol i gyfathrebu'r gwir am yr argyfyngau hyn i fyfyrwyr erbyn diwedd y tymor academaidd nesaf.<br>3. Mae'n rhaid i Undeb y Myfyrwyr ymrwymo i roi'r gorau i unrhyw golled bioamrywiaeth yn ei weithredoedd a tharged o ddim carbon net erbyn 2025. Mae'n rhaid i'r ymrwymiadau hyn gael eu hychwanegu i bolisi amgylcheddol Undeb y Myfyrwyr ar unwaith.<br>4. Mae angen i Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol i ymrwymo ar unwaith, yn ei bolisi amgylcheddol, i roi terfyn ar unrhyw golled fioamrywiaeth yn ei weithredoedd ac i ychwanegu at darged o gyflawni dim carbon net erbyn 2025.<br><br>**Cynnig yn Pasio** |
| v. | **Mabwysiadu safiad swyddogol o blaid dewis (Pro-Choice)**<br><br>Cynigydd: Isadora Sinha<br>Eiliwyd gan: Emily Millward<br><br>Penderfyna'r CCB:<br>1. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyhoeddi yn gyhoeddus eu safiad o blaid dewis ac yn datgan yn glir ar dudalen gwe "Cefnogaeth Beichiogrwydd" UMPC ac unrhyw dudalennau gwe perthnasol eraill megis yn nhudalen gwe "Polisi". |

| | |
|---|---|
| | 2. Newid terminoleg perthnasol i feichiogrwydd ac erthylu drwy gydol Undeb y Myfyrwyr er mwyn ei wneud yn ddiduedd ac yn feddygol gywir. Er enghraifft, ar dudalen gwe "Cefnogaeth Beichiogrwydd" UMPC cyfeirio i "ffoetws" ar 13-wythnos yn hytrach na "babi".<br>3. Ychwanegu dolenni at wybodaeth di-duedd, feddygol gywir, wedi ei gyfeirnodi yn academaidd a chyfoes yn ymwneud â beichiogrwydd ac erthylu ar wefan UMPC.<br>4. Gwybodaeth gyfoes ar feichiogrwydd, erthylu a lle i gael cymorth meddygol ar gefnau drysau toiledau yr Undeb i sicrhau bod myfyrwyr mewn perthynas dreisgar hefyd yn gallu cyrchu gwybodaeth.<br>5. Bydd IL Lles ac Ymgyrchoedd yn gyfrifol dros sicrhau bod ymgyrchoedd a strategaethau Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi safiad o blaid dewis i ddarparu amgylchedd gyfartal, diogel a chynhwysol i fyfyrwyr.<br>6. Bydd IL Lles ac Ymgyrchoedd, gan gydweithio â swyddogion Iechyd Meddwl, Merched a LGBT+, yn creu ymgyrch ymwybyddiaeth o blaid dewis sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyrchu erthyliad diogel a chyfreithlon gan ddefnyddio gwybodaeth wedi ei gefnogi gan ystadegau ac neu gwybodaeth feddygol.<br>7. Bydd IL Cymdeithas a Gwirfoddoli yn gyfrifol am sicrhau nad yw cymdeithasau sydd wedi eu hymlynu at Undeb y Myfyrwyr yn lledaenu gwybodaeth anghywir am erthylu a beichiogrwydd nac yn ymgymryd mewn gweithgareddau yn erbyn polisi yr Undeb.<br>8. Dylai Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd gydweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu hawliau i ymreolaeth corfforol ac erthyliad.<br><br>Cynnig yn Pasio |
| 9. | Hysbysiad Etholiadau<br><br>Rhoddwyd hysbysiad ar gyfer Etholiadau Gwanwyn 2020 yr Undeb, gyda'r enwebiadau'n agor am hanner dydd ddydd Llun 2il Rhagfyr. |
| 10. | Unrhyw Fusnes Arall<br><br>Doedd dim. |

# EITEM TRI

## Ymlyniadau: Cadarnhau Canlyniadau'r Refferendwm

Fel y manylir yn yr Hysbysiad CCB, dewisodd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb i'r busnes CCB arferol gymeradwyo'r rhestr o gysylltiadau'r Undeb trwy refferendwm myfyrwyr a oedd yn cyd-daro ag Etholiadau'r Gwanwyn. Roedd canlyniad y refferendwm fel a ganlyn:

**Cadarnhau Ymlyniadau yr Undeb**
Cyfanswm nifer y pleidleisiau dilys: 5661
Cytuno: 5541
Anghytuno: 120

*Felly barnwyd bod y cynnig yn cael ei barhau a bydd Undebau Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn parhau i fod yn gysylltiedig ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM), Chwaraeon Prifysgol a Choleg Prydain (BUCS) a rhestr o sefydliadau llai eraill sy'n berthnasol i'n grwpiau myfyrwyr a'u gweithgaredd.*

| | |
|---|---|
| **NUS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol** | £37,500 |
| **BUCS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain** | £18,600 |

- Mae llawer o glybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig yn ymlynu i amryw o gorfforaethau chwaraeon a diwylliannol llywodraethol cenedlaethol.
- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a'n cymdeithasau cofrestredig yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM PEDWAR

## Eitemau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr

### i. Diweddariad ar Adolygiad yr Iaith Gymraeg

## Cyd-destun

**Tachwedd 2018**
Ym mis Tachwedd 2018, pleidleisiodd CCB (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) Undeb y Myfyrwyr, i greu 8fed Swyddog Sabothol, a nodi y byddai gorchwyl gwaith y Swyddog ychwanegol yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Fe ymgysylltodd Undeb y Myfyrwyr gyda Seneddwyr Myfyrwyr (unigolion wedi eu hethol i gynrychioli myfyrwyr), rhanddeiliaid allanol, ac eraill i gael gwell dealltwriaeth o sut fyddai tîm y Swyddogion yn edrych.

**Mawrth 2019**
Ym mis Mawrth 2019, adolygodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr amrywiaeth eang o awgrymiadau o faint tîm y Swyddogion Sabothol (yn amrywio o bump i wyth). Fel bwrdd llywodraethu, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau fod yr Undeb yn cael ei redeg mewn ffordd sydd ddim yn rhwystro golygiadau ariannol, cyfreithiol, na chyfansoddiadol yr Undeb. Yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol daethpwyd i'r casgliad na fyddai cyflwyno wythfed Swyddog Sabothol yn bosibl, ond yn hytrach penderfynwyd i adolygu gwneuthuriad y tîm presennol i ystyried sut y gallai Swyddog yr iaith Gymraeg ymddangos fel nodwedd o'r gorchwyl o hyd.

Cafwyd sawl cynnig ar sut i gynnwys Is-lywydd Y Gymraeg a'r Gymuned ac ail-strwythuro y tîm o Swyddog Sabothol. Cyflwynwyd rhain oll gerbron bwrdd yr ymddiriedolwyr i gae eu hadolygu. Yr unig ffordd o greu Is-lywydd Iaith Gymraeg a'r Gymuned yw naill ai disodli Swyddog Sabothol neu gyfuno rolau presennol. Rhoddwyd amrywiaeth eang o ddewisiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ba rolau y dylai gael eu diddymu a pha rolau y gellid eu cyfuno yn seiliedig ar adborth gan Swyddogion, Seneddwyr Myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol. Detholodd y Bwrdd dri cynnig.

***Tachwedd 2019***
Ym mis Tachwedd 2019, pleidleisiodd CCB Undeb y Myfyrwyr (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) ar y tri cynnig a gyflwynwyd gan y Bwrdd. Roedd y cynigion hynny fel a ganlyn:

<u>Opsiwn A: Disodli Is-lywydd Ôl-raddedig</u>
(Disodli rôl Is-Lywydd Ôl-raddedig a gyda rôl newydd Is-Lywydd yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned gyda'r holl rolau presennol eraill yn aros yr un fath. Byddai rhai o ddyletswyddau'r IL Ôl-raddedig yn cael eu trosglwyddo i'r IL Addysg, gyda chymorth gan Swyddog Ymgyrch ar gyfer Myfyrwyr Ôl-raddedig)
<u>Opsiwn B: Uno rôl yr IL Addysg a'r IL Lles ac Ymgyrchoedd</u>
(Uno rolau IL Addysg a IL Lles ac Ymgyrchoedd i gael swyddi sy'n seiliedig ar fodd a lleoliad yr astudiaeth, a chreu rôl IL Yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned).
<u>Opsiwn C: Aros yr un fath gydag Adolygiad</u>
(Byddai rolau'r tîm swyddogion presennol yn aros yr un fath, serch hynny bydd adolygiad blwyddyn o hyd yn edrych ar sut gellir ymgorffori'r Gymraeg ar draws gweithgareddau'r undeb. Yn adolygu'r swyddi sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau, dylai Undeb y Myfyrwyr adolygu sut gellir gweithredu cynrychiolaeth ar

gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Byddai'r adolygiad, a fydd yn para blwyddyn, yn canolbwyntio ar ymgysylltu â siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg a deall eu hanghenion drwy ymgynghori gweithredol).
Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:
Opsiwn A: Derbyniodd Disodli IL Ôl-raddedig 3 pleidlais
Opsiwn B: Derbyniodd Uno rôl yr IL Addysg a'r IL Lles ac Ymgyrchoedd 38 pleidlais
Opsiwn C: Derbyniodd Aros yr un fath gydag Adolygiad **335 pleidlais**

Ni ddatganwyd ffafriaeth gan gyfanswm o 58 Papur Pleidlais:
- Roedd y papur heb farc arno o gwbl: 11
- Roedd y papur wedi ei ddinistrio: 44
- Nid oedd penderfyniad y pleidleisiwr yn glir: 3

Pasiodd Opsiwn C y trothwy gyda 335 yn y rownd gyntaf ac o'r herwydd fe'i deddfwyd.

## Diweddariad

Oherwydd pandemig y coronavirus, cyfyngiadau ar weithgaredd wyneb yn wyneb, effeithiau ar adnoddau staff, a mesurau tymor byr a gymerwyd i ddiogelu dyfodol yr Undeb, nid ydym wedi gallu cynnal yr adolygiad o fewn y cyfnod amser a nodwyd i ddechrau. Y cyfnod amser a nodwyd yn wreiddiol oedd Tachwedd 2019 hyd Tachwedd 2020 gyda diweddariad manwl yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni. Bydd yr Undeb bellach yn cynnal yr adolygiad dros gyfnod o 18 mis rhwng Mai 2021 a Thachwedd 2022. Bydd adroddiad interim ar gyfer sylwadau yn cael ei gyflwyno i'r CCB ym mis Tachwedd 2021, gyda'r adroddiadau terfynol yn cael eu cynnal yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd 2022.

Fel y cytunwyd yn wreiddiol, bydd yr adolygiad yn adolygiad llawn o sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg ar draws gweithgareddau'r undeb. Bydd yn adolygu'r swyddi sydd ar waith a'r mecanwaith gwneud penderfyniadau yn undeb y myfyrwyr a sut y gellir gweithredu cynrychiolaeth siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Bydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a deall eu hanghenion trwy ymgynghori gweithredol. Bydd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wrth graidd yr adolygiad a chredwn ei bod yn bwysig bod yr adolygiad yn cael ei wneud yn gyfan gwbl ar y cyd. Mae'n flaenoriaeth i'r adolygiad gynorthwyo i ailgynnau UMCC i sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu llunio'r adolygiad wrth iddo fynd rhagddo. Gellir dod o hyd i linell amser newydd ar gyfer Adolygiad yr Iaith Gymraeg isod.

| Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Cefnogi ail-danio UMCC (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd) | Mai 2021 |
| Sefydlu Gweithgor Adolygiad yr Iaith Gymraeg | Gorffennaf 2021 |
| Cytuno ar gwmpas yr adolygiad a'r cynllun ymgynghori gydag UMCC, y Gweithgor Adolygiad yr Iaith Gymraeg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr | Medi 2021 |
| Cyfnod Ymgynghori 1 | Medi - Tachwedd 2021 |
| Adroddiad Interim i'r CCB: | Tachwedd 2021 |
| Cyfnod Ymgynghori 2 | Rhagfyr 2021 – Mehefin 2022 |
| Adroddiad Terfynol ac Argymhellion i'r CCB | Tachwedd 2022 |

Gellir dod o hyd i'n polisi Iaith Gymraeg yma:[https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/policy/](https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/policy/)

# EITEM PUMP

## A) Cynigion sy'n darfod

Mae'r cynigion canlynol a basiwyd yn y CCB wedi dod i ben ers y CCB diwethaf. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig.

Pasiwyd y cynigion isod yn y CCB ym mis Tachwedd 2017:
- Myfyrwyr Mwslimaidd i gael eu cynrychioli'n well gan yr Undeb
- Newidiadau i IL Cymdeithasau a IL Lles*
- Ymgynghori â myfyrwyr ar bob haen: Sedd ar BGP
- Cymorth ariannol gwirioneddol i fyfyrwyr ôl-raddedig mewn angen

*Sylwer: bydd y newidiadau i deitlau y Swyddogion Sabothol a gyflwynwyd o ganlyniad i'r cynnig hwn yn parhau ar ôl i'r polisi ddod i ben.

Pasiwyd y cynigion isod yn y CCB ym mis Tachwedd 2016:
- Swyddog Ymgyrch Iechyd Meddwl*
- Herio nid Sensro
- Bod yn Undeb Dim Goddefgarwch
- Misglwyf mewn Tlodi

*Sylwer: bydd rôl y Swyddog Ymgyrch yn parhau mewn bodolaeth wedi i'r polisi hwn ddarfod.

## B) Cynigion a gyflwynwyd

Ymrwymiad i Wella Diogelwch Myfyrwyr o fewn ac o gwmpas y Campws

Mae'r CCB yn Nodi:

1. Mae yna lawer o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yng Nghaerdydd.
2. Mae myfyrwyr benywaidd ac LGBTQ+ yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel.
3. Mae un ymhob deg menyw rhwng 16 a 24 wedi bod yn ddioddefwr i ymosodiad yn y flwyddyn diwethaf[1]
4. Mae traean (36 y cant) o fyfyrwyr israddedig LGBTQ + wedi profi aflonyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. [2]
5. Mae marwolaeth ddinistriol Sarah Everard wedi grymuso unigolion i leisio eu profiadau eu hunain o gam-drin rhywiol ac aflonyddu.

Cred y CCB:

1. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb cyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr. Dylai'r Undeb felly weithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni.
2. Gall gwelliannau i Ddiogelwch a Lles Myfyrwyr gael effaith ddwys ar brofiad a llwyddiant myfyrwyr.
3. Y dylai'r Undeb archwilio ystod o fentrau i wella diogelwch myfyrwyr, gan weithio gyda gwasanaethau eraill ledled Caerdydd a'r ardal leol.

Penderfyna'r CCB:

1. I lobïo'r Brifysgol i gyflawni eu hymrwymiad i **ddiogelwch myfyrwyr**.
2. Canolbwyntio ar wella cyfathrebu a phrosesau yn ymwneud â:
    i. Adrodd digwyddiadau a datgeliadau (gan gynnwys aflonyddu, troseddau casineb, trais rhywiol, cam-drin mewn perthnasoedd a mathau eraill o ymddygiad annerbyniol).
    ii. Gweithdrefn Cwynion y Brifysgol i sicrhau bod sancsiynau priodol / amserol ar waith i amddiffyn lles myfyrwyr a'r byd academaidd.
    iii. Polisïau cyfredol sy'n ymwneud â diogelu myfyrwyr
3. Yr IL Lles i weithio gyda swyddogion Etholedig perthnasol i ddatblygu mentrau ar gyfer yr Undeb i wella diogelwch myfyrwyr gyfochr ag Ymrwymiad y Brifysgol.
4. Gweithio gyda'r Brifysgol, yr Heddlu, sefydliadau allanol a'r Cyngor i wella Diogelwch Myfyrwyr. Yn canolbwyntio ar :
    i. Grymuso a chefnogi myfyrwyr i ddatgelu
    ii. Addysg a chyngor.
    iii. Newidiadau i'r amgylchedd ffisegol i hyrwyddo diogelwch.
5. Cyfathrebu yn effeithiol gyda aelodau am weithredoedd a gymerir gan yr Undeb.

Cynigydd: Jude Pickett / Georgie East
Eiliwyd gan: Polly Denny

# EITEM CHWECH

## Hysbysiad CCB Rhan 2

**Mae Undeb y Myfyrwyr yn hysbysu y bydd Cyfarfod Cyffredinol Myfyrwyr (CCB) yn cael ei gynnal ar ffurf dau ddigwyddiad am 17:30 Dydd Mawrth 27ain Ebrill a 17:30 Dydd Iau 29ain Ebrill 2021.**

O ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus mae Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb wedi cymeradwyo haneru agenda y CCB i ddau ddigwyddiad. Bydd y digwyddiad cyntaf, dydd Mawrth 27ain Ebrill, yn cyd-fynd a chyfarfod Senedd arferol yr Undeb a bydd yr ail ddigwyddiad yn cael ei gynnal yn annibynnol dydd Iau 29ain Ebrill. Bydd y materion a drafodir yn y ddau ddigwyddiad yn cael eu trin ar wahân. Byddant yn cyflawni'r gorchwyl sy'n ofynnol mewn CCB arferol, ni fydd unrhyw ofynion niferoedd ar gyfer y naill ddigwyddiad na'r llall.

**Mae'r materion sydd i'w trafod yn y digwyddiad ddydd Iau 29ain Ebrill yn cynnwys:**

- Derbyn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar weithgareddau'r Undeb ers y cyfarfod blaenorol
- Derbyn cyfrifon yr Undeb ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol
- Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr gan yr Aelodau Myfyrwyr

*Gan na fydd gofyn am bleidleisio yn y digwyddiad hwn ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn awyddus i ymgysylltu â chymaint o fyfyrwyr â phosibl bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynna drwy Facebook Live. Anogir myfyrwyr i gyflwyno cwestiynau i'r ymddiriedolwyr o flaenllawyma.*

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
# Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
# Dydd Iau 29ain Ebrill 2021, 17:30
# Ar-lein

## Agenda

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 8. | Croeso | |
| Gorffennol | 9. | Adroddiad Blynyddol 19/20 | (P14) |
| | 10. | Adroddiad Ariannol 19/20 | (P15) |
| Presennol | 11. | Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr | |

# EITEM NAW

## Adroddiad Blynyddol 19/20

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Tomos Evans, yn cyflwyno'r prif negeseuon yr adroddiad, yn ogystal â datblygiadau arwyddocaol, llwyddiannau a newidiadau o fewn y sefydliadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20.

Gellir gweld yr adroddiad blynyddol ar-lein: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/annual-impact-reports/

# EITEM DEG

## Adroddiad Ariannol 19/20

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol gyda'i gilydd gyda datganiadau cyllid archwiliedig y Grŵp a'r Undeb ar gyfer y flwyddyn 1 Awst 2019 i 31 Gorffennaf 2020. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyflawni dibenion adroddiad Ymddiriedolwyr ac adroddiad cyfarwyddwyr o dan gyfraith cwmnïau. Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau bod Adroddiad Blynyddol a datganiadau cyllidol cwmni elusennol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol cyfredol, gofynion dogfen llywodraethol y cwmni elusennol a darpariaethau'r Datganiad o Ymarfer a Awgrymwyd (SORP), yn berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol yn ddilys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 1) (mewn grym 1 Ionawr 2015) gyda'r diwygiad gan Fwletin Diweddariad 1 (mewn grym Ionawr 2015).

**Amcanion a Gweithgareddau**

Amcanion yr elusen yw datblygu addysg y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr;
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaethau a dadleuon er mwyn datblygiad personol ei fyfyrwyr.

Wrth lunio amcanion Gwirfoddoli Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a chynllunio eu gweithgareddau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol a pherthnasol atodol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Wrth fynd ar drywydd yr amcanion hyn er lles y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w defnyddio gan eu haelodau ac yn gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod ei flaenoriaethau hirdymor yn ôl ei gynllun strategol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol, a fynegir mewn cerdyn sgorio cytbwys a ddilynir gan Ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Ym mis Mai 2018 lansiodd yr Undeb ei gynllun strategol cyfredol ar gyfer 2018 hyd 2021, gyda'r teitl 'Wrth Galon Profiad Myfyrwyr Caerdydd' a gellir ei ddarllen yma: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans.

**Adroddiad Ariannol**

Cyfanswm incwm y Grŵp Elusen oedd £10,280,850 (2019: £9,934,887) gyda chyfanswm gwariant o £10,823,403 (2019: £9,931,722) yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, arweiniodd hyn at wariant net o £ 542,553 (2019: incwm net o £ 3,165). Mae hyn yn cynnwys incwm grant cyfyngedig o £1,178,647 a gwariant a throsglwyddiadau o £520,507.

Ar 31 Gorffennaf 2020, cyfanswm cronfeydd wrth gefn Grŵp yr Undeb (h.y. cronfeydd anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog na rhwymedigaethau cronfa pensiwn) oedd £ 1,342,303 (2019: 1,008,172) ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn, i barhau i weithredu trwy COVID-19 ac i ddilyn ei amcanion a'i weithgareddau. Yn ogystal, daliwyd £682,855 (2019: £24,715) pellach mewn cyllidau wedi eu cyfyngu.

Er bod masnach wedi'i chyfyngu i saith mis o'r flwyddyn oherwydd y pandemig, gostyngodd trosiant is-gwmni masnachu'r Undeb i £ 3,795,928 (2019: £ 4,516,928) gan arwain at elw gros gostyngedig o £

1,898,977 (2019: £ 2,380,850). Daeth amseriad cychwynnol COVID-19 ar ôl cyfnodau prysuraf y flwyddyn y Cwmni, tra bod rhai gweithgareddau masnachu yn gallu parhau, fel Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd. Cynyddodd treuliau gweinyddol i £ 3,924,274 (2019: £ 3,901,420) yn y flwyddyn.
Yn gyffredinol, gwnaeth y cwmni masnachu ddiffyg o £ -1,332,409 (2019: £ -1,256,541). Yn ystod y flwyddyn cynyddodd atebolrwydd pensiwn y cwmni i £ 5,770,342 (2019: £ 4,297,886) yn dilyn canlyniad prisiad tair blynedd y Cynllun. Mae'r diffyg ariannol yn codi o rwymedigaethau dyfodol y cwmni tuag at Gynllun Blwydd-dâl Undeb y Myfyrwyr (SUSS), a gafodd ei gau rhag croniad pellach yn 2011. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod arian i fodloni rhwymedigaethau i'r gronfa gan eu bod yn ddyledus dros fywyd y cynllun adfer diffyg ariannol hyd at 2035.

**Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn yn unol ag anghenion y dyfodol os na fydd arian ar gael o'r ffynhonnell ariannu gweithredol. Mae polisi wrth gefn yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu i gyflawni gwarged blynyddol o'i weithgareddau cyfnerthedig i ddatblygu cronfeydd rhydd anghyfyngedig o £1.3M erbyn 2023. Mae cronfeydd rhydd yn cael eu diffinio fel 'cyllid anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Cyfanswm cronfeydd wrth gefn rhydd yr Elusen yw £1,558,534 (2019: £1,421,355) ac £1,342,303 (2019: £1,008,172) wedi eu cyfuno.

**Busnes gweithredol**

Ar ôl gwneud ymholiadau addas, mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr Undeb adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth gweithredol yn y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn maen nhw'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau cyllid. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn ymwneud a mabwysiadu'r sail busnes gweithredol yn y polisïau cyfrifeg.

**CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION**
**(A Company Limited by Guarantee)**

## CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES (INCORPORATING INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT) FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2020

| | Note | Unrestricted funds 2020 £ | Restricted funds 2020 £ | Total funds 2020 £ | Total funds 2019 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Income from:** | | | | | |
| Donations and legacies | 3 | 2,895,750 | 1,178,647 | 4,074,397 | 2,941,781 |
| Charitable activities | 4 | 1,960,991 | - | 1,960,991 | 2,468,637 |
| Other trading activities | | 3,795,928 | - | 3,795,928 | 4,516,928 |
| Investments | 5 | 5,181 | - | 5,181 | 7,541 |
| Other income | 6 | 444,353 | - | 444,353 | - |
| **Total income** | | 9,102,203 | 1,178,647 | 10,280,850 | 9,934,887 |
| **Expenditure on:** | | | | | |
| Raising funds | | 7,484,311 | - | 7,484,311 | 6,160,460 |
| Charitable activities | 7 | 3,307,891 | 31,201 | 3,339,092 | 3,771,262 |
| **Total expenditure** | | 10,792,202 | 31,201 | 10,823,403 | 9,931,722 |
| **Net (expenditure)/income** | | (1,689,999) | 1,147,446 | (542,553) | 3,165 |
| Transfers between funds | 18 | 489,306 | (489,306) | - | - |
| **Net movement in funds** | | (1,200,693) | 658,140 | (542,553) | 3,165 |
| **Reconciliation of funds:** | | | | | |
| Total funds brought forward | | 8,759,985 | 24,715 | 8,784,700 | 8,781,535 |
| Net movement in funds | | (1,200,693) | 658,140 | (542,553) | 3,165 |
| **Total funds carried forward** | | 7,559,292 | 682,855 | 8,242,147 | 8,784,700 |

CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION
(A Company Limited by Guarantee)
REGISTERED NUMBER: 07328777

## CONSOLIDATED BALANCE SHEET
## AS AT 31 JULY 2020

| | Note | | 2020 £ | | 2019 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | | | | | |
| Tangible assets | **11** | | 11,987,331 | | 12,049,699 |
| Investments | | | 73,563 | | 73,563 |
| | | | 12,060,894 | | 12,123,262 |
| **Current assets** | | | | | |
| Stocks | **13** | 129,535 | | 70,786 | |
| Debtors | **14** | 578,763 | | 825,778 | |
| Cash at bank and in hand | | 2,795,037 | | 1,655,788 | |
| | | 3,503,335 | | 2,552,352 | |
| Creditors: amounts falling due within one year | **15** | (1,305,907) | | (1,593,028) | |
| **Net current assets** | | | 2,197,428 | | 959,324 |
| **Total assets less current liabilities** | | | 14,258,322 | | 13,082,586 |
| Creditors: amounts falling due after more than one year | **16** | | (245,833) | | - |
| Provisions for liabilities | **17,24** | | (5,770,342) | | (4,297,886) |
| **Total net assets** | | | 8,242,147 | | 8,784,700 |
| **Charity funds** | | | | | |
| Restricted funds | **18** | | 682,855 | | 24,715 |
| Unrestricted funds | **18** | | 7,559,292 | | 8,759,985 |
| **Total funds** | | | 8,242,147 | | 8,784,700 |

Mae cyfrifau llawn ar gael: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/financial-statements